Cymru Ifanc
Young Wales

Mawrth 2017

This briefing is bilingual, click here for the English version.

---

## Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

---

## Contents


1. Cylchlythyr T4CYP #4
2. Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)
3. Grwp arbenigol newydd i roi cyngor i'r cwricwlwm ar berthnasau iach
4. Astudiaeth iechyd fawr yng Nghymru yn recriwtio gwirfoddolwyr
5. £1 miliwn o gyllid i bobl ifanc sydd wedi profi gofal
6. Lansio gwefan i gasglu eich barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

7. Llywodraeth Cymru'n ymuno â'r byd academaidd i ymgyrchu i gael mwy o ferched mewn gwyddoniaeth a pheirianneg

---

## Cylchlythyr T4CYP #4

Mae Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn rhaglen wella aml-asiantaethol sy'n ceisio gwella'r gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r cylchlythyr diweddaraf yn cynnwys y manylion canlynol am T4CYP:

- dull o sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad i grwpiau agored i niwed
- gweithio i gynnig cefnogaeth i bobl ifanc yn ystod cyfnodau pontio
- erthygl reolaidd ar aelodaeth Bwrdd y Rhaglen.

Cliciwch yma i gael gwybod rhagor.

---

## Dewisiadau ar gyfer gweithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar eich barn ar weithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Bydd y Bil yn creu fframwaith sengl ac unedig ar gyfer cynorthwyo dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn disodli'r ystod bresennol o gynlluniau dysgu statudol ac anstatudol. Bydd y rhain yn dod yn Gynlluniau Datblygu Unigol. Gobeithir y gwnaiff y newidiadau sicrhau gwarchod darpariaeth a hawliau i bobl gydag anghenion dysgu ychwanegol, waeth beth fydd difrifoldeb neu gymhlethdodau'r anghenion hyn.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 9 Mehefin 2017.**

Am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a sut i ymateb ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

---

## Grwp arbenigol newydd i roi cyngor i'r cwricwlwm ar berthnasau iach

Bydd y panel arbenigol, a gyhoeddwyd gan Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg, yn rhoi cyngor ar berthnasau iach fel rhan o gwricwlwm cyfredol ysgolion.

Bydd y panel yn cynnig cyngor a chefnogaeth am gyflwyno addysg perthnasau iach. Gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- wella'r ddealltwriaeth o faterion lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
- cam-drin domestig a thrais rhywiol
- parch a chaniatâd
- rhywiaeth a bwlio.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth.

---

## Astudiaeth iechyd fawr yng Nghymru yn recriwtio gwirfoddolwyr

Doeth am Iechyd Cymru yw'r astudiaeth ymchwil fwyaf o'i math i gael ei chynnal yng Nghymru ac mae ganddi'r potensial i drawsffurfio iechyd a lles y genedl.

Mae Doeth am Iechyd Cymru yn gobeithio recriwtio 260,000 o wirfoddolwyr, 16 mlwydd oed a throsodd, i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Bydd gofyn i wirfoddolwyr ateb cyfres o gwestiynau i helpu ymchwilwyr ddeall iechyd pobl yng Nghymru yn well. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r prosiect hefyd yn cael ei defnyddio fel sail i gynllunio'r dyfodol yn y GIG.

Cliciwch yma i gael gwybod rhagor.

---

## £1 miliwn o gyllid i bobl ifanc sydd wedi profi gofal

Bydd Cronfa Dydd Dewi Sant, a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Cymunedau a Phlant, Carl Sargeant AC, yn rhoi £1 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn helpu pobl ifanc sydd wedi profi gofal.

Bydd yr arian ar gael i bobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed, sydd wedi gadael gofal neu sydd yng ngofal awdurdod lleol, i'w cefnogi tuag at annibyniaeth. Yn 2015/16, roedd 5662 o blant mewn gofal yng Nghymru a 702 wedi gadael gofal. Nod y gronfa yw gwella canlyniadau ar gyfer y grwp hwn o bobl ifanc, gan fod eu dyfodol yn dueddol o edrych yn llai cadarnhaol na'r rhai hynny sy'n byw yng nghartref y teulu, a rhoi cyfle iddyn nhw wireddu eu potensial.

Canfyddwch ragor yma.

---

## Lansio gwefan i gasglu eich barn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Mae Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd, Lles a Chwaraeon, yn galw ar y cyhoedd i rannu eu barn ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae gwefan newydd wedi'i lansio i roi cyfle i'r cyhoedd rannu eu barn onest am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adnodd wedi'i roi ar waith yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad mawr o'r materion sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn a beth mae pobl yn disgwyl ei gael ganddynt.

Canfyddwch ragor yma.

## Llywodraeth Cymru'n ymuno â'r byd academaidd i ymgyrchu i gael mwy o ferched mewn gwyddoniaeth a pheirianneg

Mae'r byd academaidd ac arweinwyr busnes yng Nghymru yn ymuno ag ymgyrch Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol, i gael mwy o ferched i gymryd pynciau [STEM] gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, yng Nghymru.

Mae dathliad WISE o Ferched Dawnus yn dod â gweinidogion, academyddion, busnesau ac ysgolion ynghyd i gefnogi adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ar brinder sgiliau STEM. Bydd yn edrych yn benodol ar sut i ymdrin â'r prinder sgiliau drwy annog mwy o enethod a merched i ymgymryd â'r meysydd hyn. Bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i 50 o enethod, o wyth o ysgolion ledled Cymru, gysylltu eu personoliaeth i'r nodweddion sydd eu hangen mewn gyrfaoedd STEM ac i drafod eu canlyniadau gyda merched ifainc sydd eisoes yn gweithio yn y maes.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael gwybod rhagor.

---

Cymru Ifanc
Young Wales

March 2017

---

## Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

---

## Contents

1. T4CYP Newsletter #4

2. Options for implementing the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill
3. New expert group to advise curriculum on healthy relationships
4. Major Welsh health study recruiting for volunteers
5. £1 million funding for care experienced young people
6. Website launched to gather your views on health and social care in Wales
7. Welsh Government join forces with academia to campaign for more girls in science and engineering

---

## T4CYP Newsletter #4

Together for Children and Young People (T4CYP) is a multi-agency improvement programme that aims to improve the emotional and mental health services for children and young people in Wales.

The latest newsletter features T4CYP's:

- approach to ensuring equality of access for vulnerable groups
- work to provide support for young people during transition
- regular feature on Programme Board membership.

Click here to find out more.

---

## Options for implementing the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill

The Welsh Government is consulting for your views on the implementation of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Bill.

The Bill will create a single, unified framework for supporting learners with additional learning needs. This will replace the current range of statutory and non-statutory learning plans, which will become Individual Development Plans. It is hoped that the changes will ensure the protection of provision and rights for people with
additional learning needs, regardless of the severity or complexity of these needs.

**The closing date for responses is 9 June 2017.**

For more information about the consultation and how to respond visit the Welsh Government website.

---

## New expert group to advise curriculum on healthy relationships

The expert panel, announced by Kirsty Williams AM, Cabinet Secretary for Education, will advise on healthy relationships as part of the current school curriculum.
The panel will offer advice and support around the delivery of healthy relationships education. With particular focus on:

- improving the understanding of lesbian, gay, bisexual and transgender issues
- domestic abuse and sexual violence
- respect and consent
- sexism and bullying.

Visit the Welsh Government website for more information.

---

## Major Welsh health study recruiting for volunteers

Healthwise Wales is the largest research study of its kind to be undertaken in Wales and has the potential to transform the health and well-being of the nation.

Healthwise Wales hopes to recruit 260,000 volunteers, aged 16 and over, to take part in the study. Volunteers will be asked a series of questions to help researchers to better understand the health of people in Wales. The information gathered from the project will also be used to inform future planning within the NHS.

Click here to find out more.

---

## £1 million funding for care experienced young people

The St David's Day fund, announced by the Cabinet Secretary for Communities and Children, Carl Sargeant AM, will provide local authorities with £1 million of additional funding to help care experienced young people.

The fund will be available to young people aged 16 to 25, who are care leavers or in local authority care, to support them towards independence. In 2015/16, there were 5662 children in care in Wales and 702 care leavers. The fund aims to better the outcomes for this group of young people, whose futures tend to look less positive than those who live in the family home, and provide them with an opportunity to realise their potential.

Find out more here.

---

## Website launched to gather your views on health and social care in Wales

Vaughan Gething AM, Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport, is calling on the public to share their views on the future of health and social care in Wales.

A new website has been launched to give the public an opportunity to share their honest opinions of the future of health and social care. The resource has been implemented following the Welsh Government's decision to undertake a major review into the issues facing these services and what people expect to gain from them.

Find out more here.

---

## Welsh Government join forces with academia to campaign for more girls in science and engineering

Academia and business leaders in Wales are joining forces with Welsh Government's campaign, baked by HRH The Princess Royal, to get more girls into science, technology, engineering and mathematic (STEM) subjects in Wales.

The WISE celebration of Talented Women brings together the ministers, academics, businesses and schools backing the Welsh Government commissioned report into STEM skills shortages. Which will specifically look at how the skills shortage can be addressed by encouraging more girls and women into these areas. The event will give 50 girls, from eight schools across Wales, the opportunity to relate their personality types to the characteristics required in STEM careers and to discuss their findings with young women already working in the field.

Visit the Welsh Government website to find out more.

---